# Cofnodion – Cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru WBPSG14 12fed Gorffennaf 2011, Prifysgol Cymru, Aberystwyth

## Yn bresennol

| Enw | | Sefydliad |
|---|---|---|
| Alys | Edwards | Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| Graham | Oliver | Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Trevor | Dines | Plantlife |
| Diana | Reynolds | Llywodraeth Cymru (Cadeirydd) |
| Robert | Griffiths | Llywodraeth Cymru |
| Russell | Hobson | Butterfly Conservation |
| Tracey | Lovering | Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| Deb | Hill | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Dinas a Sir Abertawe |
| Sean | McHugh | Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| Nigel | Ajax-Lewis | Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Dusi | Thomas | Dŵr Cymru - Welsh Water |
| Michelle | Van-Velzen | Comisiwn Coedwigaeth Cymru |
| Roy | Tapping | Canolfannau Cofnodi Lleol Cymru/Cofnod |
| Julia | Korn | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Mark | Robinson | Dyfrffyrdd Prydain |
| Nick | Birula | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Ian | Guildford | Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Heddlu De Cymru |
| Glenda | Thomas | Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru |
| Alex | Joseph | Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru |
| Sinead | Lynch | Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol De Cymru |
| Melanie | Dodd | Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol |
| Lynda | Warren | Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru |
| Emyr | Williams | Parciau Cenedlaethol Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Huw | Jenkins | Natur Cymru |
| David | Jenkins | Coed Cymru |
| Stephen | Bladwell | RSPB/Cyswllt Amgylchedd Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| Enw | | Sefydliad |
|---|---|---|
| Helen | Buckingham | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| David | Parker | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Mike | Bruford | Prifysgol Caerdydd |
| Clive | Walmsley | Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd |
| Chris | Tucker | Comisiwn Coedwigaeth Cymru |
| Robin | Woodyatt | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cyngor Sir Caerffili |
| Hazel | Drewett | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Laura | Jones | Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Gogledd Cymru |
| Sean | Christian | RSPB/Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Tom | Jones | Cymdeithas Edward Llwyd. |
| Graeme | Hays | Prifysgol Abertawe |

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Diana Reynolds. Croesawodd bawb a oedd yn bresennol a diolchodd iddynt am eu gwaith parhaus yn cefnogi'r bartneriaeth.

Wedyn croesawodd Diana yr aelodau newydd o'r grŵp llywio; Emyr Williams (Parciau Cenedlaethol), Sinead Lynch (Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Gogledd Cymru), Melanie Dodd (Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol) a Lynda Warren (Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru).

Rhoddodd Diana y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am newidiadau staff yn yr Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol yn Llywodraeth Cymru (LlC), a dywedodd wrth y grŵp ei bod hi erbyn hyn wedi cael ei phenodi'n Rheolwr Rhaglen amser llawn Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, gyda Stephen Jackson yn cymryd drosodd fel Pennaeth Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth a Rob Griffiths wedi'i benodi'n Rheolwr Polisi Bioamrywiaeth. Dywedwyd wrth y grŵp y bydd Stephen Jackson a Steve Spode (yr Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol) yn ymuno â chyfarfodydd y Grŵp Llywio yn y dyfodol i ddarparu cyswllt uniongyrchol rhwng yr Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol a Thîm Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

Cytunodd y grŵp ei fod yn falch o groesawu'r aelodau newydd i'r grŵp a bydd hyn yn cael ei drosglwyddo i'r Gweinidog yn awr iddo ef gytuno.

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru wedi cynnig cefnogaeth yn ddiweddar i 5 cais am grant treth tirlenwi a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, ac mae'n hapus i gynnig yr un cyfle i brosiectau addas eraill sy'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth neu newid yn yr hinsawdd. Yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Bartneriaeth mae Diana Reynolds ar gael erbyn hyn i ysgrifennu llythyrau yn cefnogi ceisiadau posibl.

Wedyn rhoddodd Diana y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am gyllid ar gyfer Grwpiau Ecosystemau'r Bartneriaeth. Cyhoeddodd fod cyfanswm o £140,000 wedi cael ei sicrhau oddi wrth LlC a'r Cyngor Cefn Gwlad ar gyfer grantiau'r flwyddyn hon. Bydd yr arian hwn yn parhau i gael ei weinyddu gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, er y caiff y meini prawf cyfredol eu hadolygu ar gyfer y cylch cyllido nesaf, gan ddechrau ar ddechrau blwyddyn ariannol 2012/13.

**Papur 01: Safleoedd o Bwysigrwydd i Gadwraeth Natur (SINCs) – Ystyriaethau a Chyfleoedd Cyfredol: Sinead Lynch**

Dechreuodd Diana drwy gadarnhau pwysigrwydd SINCs, y cyfeirir atynt yn Strategaeth Amgylcheddol Cymru. Mae Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol wedi'i fwriadu i wireddu canlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol, nid i ddisodli'r strategaeth. Un o amcanion allweddol y Fframwaith yw gwneud mwy dros natur a lleihau'r baich biwrocrataidd yr un pryd.

Cyflwynodd Sinead Lynch y papur i'r grŵp. Cafodd ei gynhyrchu gan y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAPs) yng Nghymru i ddangos yr angen i weithredu mewn ffordd gydgysylltiedig wrth ddelio â SINCs, sy'n cael eu dynodi fel rhan o'r broses gynllunio. Amlygai'r papur yr angen i SINCs gael eu hystyried a'u cynnwys mewn prosiectau cenedlaethol fel Glastir (er i hyn fod yn anodd yn aml oherwydd argaeledd data). I'r dyfodol, awgrymir y dylid sefydlu System Genedlaethol Safleoedd Natur i Gymru, a byddai modd wedyn darparu rhestr gynhwysfawr o safleoedd gyda data ategol, a hynny mewn fformat cyson.

Tynnodd Michele van-Velzen sylw'r grŵp at y papur a gyflwynwyd i'r Grŵp Llywio ym mis Tachwedd 2010, Creu Coetiroedd Newydd yng Nghymru (Papur i'w Nodi G: SG12 Tachwedd 2010). Roedd hwn yn cyflwyno'r cynigion er mwyn bwrw ymlaen i greu coetiroedd newydd drwy Glastir, ac yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Cafodd y cynllun ei asesu drwy borwr ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru, gyda'r nod o gyfyngu'r ymgynghori i safleoedd lle mae gwir angen mewnbwn/ymgynghori. Pwysleisiodd nad yw ardaloedd gwyrdd sydd wedi'u nodi ar y mapiwr yn golygu o reidrwydd y bydd plannu'n dderbyniol ar y safle a bydd angen ystyried y rhywogaethau a'r cynefinoedd y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Mae'r cynllun wedi bod yn weithredol ers saith mis ac mae 315 hectar yn fras wedi cael eu cymeradwyo, 95% o hynny'n goetiroedd

brodorol gydag un ai opsiwn bioamrywiaeth neu opsiwn carbon. Maint cynllun ar gyfartaledd yw 1 hectar, er bod ymholiadau wedi dod i law am gynlluniau mwy. Pwysleisiwyd fod gwahaniaeth sylweddol rhwng SINCs, lle nad yw'r tirfeddiannwr yn aml yn ymwybodol o'r dyraniad sydd ynghlwm wrth y daliad tir, a Safleoedd Bywyd Gwyllt, lle mae'r tirfeddiannwr wedi cael ei hysbysu a chynllun rheoli addas wedi'i sefydlu.

Mae gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru brosiect peilot ar waith gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r holl safleoedd o fewn y terfyn wedi'u dosbarthu'n rhai coch neu felyn ar y map syllwr. Mae canllawiau a ddatblygwyd gan Gareth Ellis, Ecolegydd y Parc, wedi nodi parthau plannu gwyrdd o fewn y parthau coch/melyn gan ddefnyddio canllawiau plannu arbennig. Mae'r peilot wedi bod yn llwyddiant ac erbyn hyn mae'n cael ei roi ar waith mewn Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru. Caiff cronfa ddata'r Comisiwn Coedwigaeth ei diweddaru â data Parc Cenedlaethol y Bannau erbyn mis Rhagfyr eleni gyda'r posibilrwydd o ehangu'r prosiect i Awdurdodau Lleol sy'n dal data cynhwysfawr a chadarn.

> **CAM GWEITHREDU 1.** Awdurdodau Lleol sydd â'r set ddata briodol a hoffai fod yn rhan o beilot y Comisiwn Coedwigaeth i gysylltu â Michele van-Velzen i drafod michelle.van-velzen@forestry.gsi.gov.uk.

Nododd Sinead fod angen i'r data SINC sydd ar gael gael ei safoni a'i ddwyn i lefel lle mae modd ei ddefnyddio'n genedlaethol. Ar hyn o bryd nid yw gwerth data SINC yn cael ei gydnabod na'i ddefnyddio drwy'r gyfundrefn gynllunio.

Holodd Emyr Williams a oedd modd trosglwyddo'r wybodaeth a'r ffordd o weithredu a ddefnyddiwyd wrth fapio coetiroedd i elfennau eraill o Glastir.

Dywedodd Glenda Thomas wrth y grŵp fod 'pwysau i blannu' yn aml yng nghyswllt cynlluniau creu coetiroedd o dan Glastir ac y gallai hyn arwain at ddewis opsiynau *ad hoc* heb ystyried y ddarpariaeth cynefinoedd ehangach, yn cynnwys glaswelltir wedi a heb ei wella. Ymatebodd Diana Reynolds fod Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn trin Glastir fel prosiect ehangach sy'n ymgorffori opsiynau carbon, dŵr, pridd a bioamrywiaeth ac y bydd yn rhoi sylw i faterion datblygu cynaliadwy ehangach a sut mae penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn cydblethu â'r nod hwn. Caiff y gwersi a ddysgir o'r cynllun plannu coetiroedd eu hymgorffori yng nghynllun ehangach Glastir.

> **CAM GWEITHREDU 2.** Diana Reynolds i adolygu amcanion ehangach cynllun Glastir yng nghyd-destun Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a throsglwyddo'r hyn a ddysgwyd o'r dull gweithredu yn gysylltiedig â phlannu coetiroedd i amcanion ehangach y cynllun.

Dyfynnodd Sinead yr enghraifft a welwyd ym mhrosiect safleoedd bywyd gwyllt Sir Fynwy (Cyngor Sir Fynwy ac Ymddiriedolaeth Natur Gwent), sydd wedi dangos mai tyddynwyr yw llawer o dirfeddianwyr, nid ffermwyr o reidrwydd.

Dywedodd Michele y byddai'n dda o beth i'r Comisiwn Coedwigaeth fod â chyswllt strategol o fewn y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yng Nghymru er mwyn symud unrhyw weithredu ymlaen a chytunodd Sinead i ymgymryd â'r rôl hon.

> **CAM GWEITHREDU 3.** Michele van-Velzen a Sinead Lynch i drafod cynnwys data SINC wrth Fapio Cyfleoedd Coetir a symud hynny ymlaen.

Holodd Trevor Dines a oes meini prawf ffurfiol ar gyfer dynodi SINCs ac a oedd y meini prawf hynny yn gyson ar draws Cymru. Mae problemau o hyd ynglŷn â natur sensitif y data ( sut y caiff ei ddefnyddio'n genedlaethol) – yn aml nid yw tirfeddianwyr yn ymwybodol o'r dyraniad ar eu tir. Mae angen bod yn glir o ran yr iaith a ddefnyddir; gall y term dynodi achosi pryder i dirfeddianwyr yn aml gan ei fod yn derm sy'n gysylltiedig fel arfer â safleoedd statudol, a'r goblygiadau cyfreithiol sydd ynghlwm wrth hynny. Mae hyn yn codi'r mater ehangach o sut yr ydym yn cyfathrebu â thirfeddianwyr a'r cyhoedd ehangach, a'r iaith sy'n cael ei defnyddio. Mae Plantlife wedi cael profiad sylweddol o gyfathrebu â thirfeddianwyr a byddai'n hapus i rannu'r arferion gorau. Dywedodd Sinead wrth y grŵp mai'r term technegol cywir yw 'dyrannu' yn hytrach na 'dynodi' ac mai drwy bolisi cynllunio y caiff y safleoedd eu gwarchod. Nid ydynt yn ddyraniadau statudol.

Nododd Graham Oliver y dylid datblygu cynllun hyfforddi ar gyfer cysylltu â thirfeddianwyr , a gwneud hynny mewn trafodaeth â thirfeddianwyr. Cydnabuwyd fod sawl cynllun tebyg eisoes ar waith gan gyrff fel FWAG a'r Cyngor Cefn Gwlad.

> **CAM GWEITHREDU 4.** LBAPs y mae angen cyngor neu wybodaeth arnynt ar gysylltu â thirfeddianwyr am SINCs/Safleoedd bywyd gwyllt lleol i gysylltu â Thîm Cymorth PBC.

> **CAM GWEITHREDU 5.** Tracey Lovering a Glenda Thomas i archwilio'r posibilrwydd y gallai PBC gynnal cyfres o ddigwyddiadau yn ymdrin ag ymwybyddiaeth amaethyddol.

Dywedodd Melanie Dodd wrth y grŵp fod canllawiau i Gymru gyfan ar ddethol SINC yn bod fel fframwaith ond nad ydynt yn cael eu harfer yn gyson ar draws pob Awdurdod Lleol yng Nghymru gan fod meini prawf rhanbarthol yn effeithio ar hynny. Caiff meini prawf dethol SINC De Cymru eu harfer ar draws y De ac mae set o feini prawf is-ranbarthol wedi cael ei datblygu gan grŵp SINC y cymoedd canol sy'n cynnwys awdurdodau lleol Caerffili, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Cwblhaodd Caerffili adolygiad SINC fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol yn 2007 a chanfuwyd yn ystod yr arolygiad ffurfiol o'r cynllun fod y meini prawf a ddatblygwyd i ddyrannu safleoedd yn gadarn.

Nododd Roy Tapping fod dau Awdurdod Lleol yn y Gogledd wedi defnyddio methodoleg wahanol lle caiff safleoedd eu dyrannu'n adweithiol yn sgil arolwg ynghlwm wrth gais cynllunio. Awgrymodd y dylai PBC sefydlu fforwm i sicrhau cysondeb ar draws Cymru. Dywedodd Melanie nad oedd y dull hwn o weithredu yn hollol wahanol ac y bydd Awdurdodau Lleol eraill yn gweithredu yn yr un modd os caiff safle newydd, y

tybir ei fod o ansawdd SINC, yn cael ei arolygu oherwydd cais cynllunio. Mae'r ffordd o roi gwybod i dirfeddianwyr am ddyraniad hefyd yn gwahaniaethu'n sylweddol ar draws yr Awdurdodau Lleol.

Dywedodd Roy wrth y grŵp fod y Canolfannau Cofnodi Lleol yng Nghymru wedi arwain y gwaith o resymoli data GIS am Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, ac wedi cyflenwi gwybodaeth wedi'i choladu i Asiantaeth yr Amgylchedd a allai wasanaethu fel llinell sylfaen. Mae rhai problemau'n bodoli gyda'r data o ran ffiniau safleoedd ac ati, ond mae'r data llinell sylfaen ar gael. Mae Cofnod wedi bod yn symud y prosiect peilot gydag Ynys Môn ymlaen a gellid mabwysiadu'r drefn hon ar draws Cymru. Nododd Roy hefyd y gallai'r Canolfannau Cofnodi Lleol o bosibl symud hyn ymlaen. Hysbysodd Melanie Dodd y grŵp fod grŵp SINC y Cymoedd Canol wedi gweithio gyda SEWBReC i gynhyrchu haen ddata SINC sydd wedi'i seilio'n bennaf ar ddata am gynefinoedd sy'n flaenoriaeth. Pan gaiff safleoedd statudol eu gosod dros yr haen hon, mae'n dangos potensial da i wella cysylltiadau rhwng cynefinoedd. Cadarnhaodd gwaith a gafodd ei hyrwyddo gan Grŵp Gweithredu Gwent Fwyaf ar Fioamrywiaeth (GGBAG) a Grŵp Gweithredu Morgannwg ar Fioamrywiaeth (GLAMBAG) hyn a chanfuwyd fod SINCs yn gallu bod yn hynod o effeithiol yn clustogi a chysylltu safleoedd dynodedig eraill.

> **CAM GWEITHREDU 6.** Roy Tapping a Colin Chapman (LlC) i drafod cynnwys data SINC a'i fformat, a sut y gellir ymgorffori hyn yn y gwaith mapio GIS sydd ar y gweill fel rhan o raglen Cymru Fyw.

Codwyd cwestiynau am ba mor ddibynadwy yw data cynefinoedd Cam 1, a nododd Melanie fod y mwyafrif o safleoedd SINC wedi'u seilio ar gynefinoedd blaenoriaeth yn hytrach na rhywogaethau, a bod hynny'n diweddaru'r data cynefinoedd Cam un gwreiddiol.

Holodd Diana Reynolds a oedd y cynlluniau mapio presennol (CCGC Seilwaith Gwyrdd; gwaith mapio'r Comisiwn Coedwigaeth; gwaith y grŵp ecosystemau yn mapio cynefinoedd blaenoriaeth) yn defnyddio data SINC. Awgrymwyd y gallai data SINC gael ei fwydo i'r prosiect Mapio Safleoedd Blaenoriaeth y mae Jan Sherry yn y Cyngor Cefn Gwlad wedi bod yn ei symud ymlaen ar ran y Grŵp Ecosystemau. Dylai lefel un prosiect mapio cynefinoedd Cymru gyfan ddarparu ar gyfer yr holl gynefinoedd ad42 a rhywogaethau cysylltiol.

> **CAM GWEITHREDU 7.** PAWB i fwydo data priodol i'w gynnwys yn yr ymarferiad Mapio Safleoedd Blaenoriaeth i Jan Sherry neu drwy'r cyswllt perthnasol ar Grŵp Ecosystemau PBC.

> **CAM GWEITHREDU 8.** Diana Reynolds a Rob Griffiths i sicrhau fod y prosiect Seilwaith Gwyrdd yn defnyddio safonau data cyffredin i gydblethu â chynlluniau mapio eraill.

Nododd Graham Oliver fod y derminoleg ynglŷn â SINCS/safleoedd bywyd gwyllt yn aml yn gymhleth a'i fod yn gallu gelyniaethu'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r prosesau. Tynnodd sylw unwaith eto at yr angen am well dulliau cyfathrebu. Nododd Diana fod

llawer iawn o waith wedi cael ei wneud ynglŷn â chyfathrebu fel rhan o ddatblygu Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Bydd y Fframwaith yn rhoi sylw i faterion fel y rhain yn ddiweddarach a gallai elwa o gael mewnbwn gan y grŵp llywio. Gellid ymdrin â hyn hefyd drwy waith grŵp Dyfodol PBC sydd wedi cael ei ailgynnull.

Awgrymodd Tracey Lovering y dylid sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ymdrin â'r materion yn gysylltiedig â SINCs fel rhannu data, GIS, cysondeb ac ati. Awgrymodd Michele van-Velzen mai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ddylai fod yn gyfrifol am hyn, ac y dylai sicrhau cysondeb o'r dechrau.

> **CAM GWEITHREDU 9.** Diana i godi materion yn ymwneud â SINCs a'r posibilrwydd o'u cynnwys yng nghanllawiau a phrosesau penderfynu CLlLC.

**Cyflwyniad ar Dacsonomi: Lepidoptera: Russel Hobson**

Rhoddodd Diana adroddiad diweddaru byr ar wobrau blaenorol y grŵp tacsonomi gan nodi fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i symud prosiectau ymlaen. Mae'r prosiect morfeirch yn ymchwilio i ddeifio archwiliol ym Mae Ceredigion ac mae'r prosiect dilyniannu DNA ffyngau a'r canllawiau maes cysylltiol ar adnabod ffyngau yn datblygu.

> **CAM GWEITHREDU 10.** Sean i ganfod sut mae'r prosiect tacsonomi yn mynd yn ei flaen a diweddaru'r rhestr o brosiectau a gyllidir gan y Bartneriaeth sydd wedi'u cwblhau ar wefan PBC.

Wedyn estynnodd Diana groeso i Russel i'r cyfarfod. Diolchodd ef i'r Bartneriaeth am y gwahoddiad i siarad am yr eildro a rhoddodd gyflwyniad byr i waith Butterfly Conservation (BC). Dywedodd Russel wrth y grŵp fod y gwyfyn cliradain Gymreig wedi cael ei ddarganfod yng Nghwm Elan a Gilfach yn y Canolbarth ers ei gyflwyniad diwethaf i'r Bartneriaeth yn 2008. Mae'r rhestr ad42 wedi cael ei diweddaru ac erbyn hyn mae'n cynnwys 15 o glöynnod byw y rhoddir blaenoriaeth iddynt a 27 gwyfyn sy'n cael blaenoriaeth. Yn 2008 codwyd tair her: yr angen i fabwysiadu Dangosydd Glöynnod Byw i asesu perfformiad; gwelliannau mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd; a chyllido.

Ers hynny bu gwelliannau yn y trawsluniau glöynnod byw ac mae Dangosydd Glöynnod Byw drafft i Gymru wedi cael ei ddatblygu, sy'n dangos cynnydd cymedrol arwyddocaol mewn rhywogaethau lle mae digon o ddata ar gael o ddefnyddio llinell sylfaen 1997. Mae'r Fritheg Frown yn bresennol ar un safle yn awr, sy'n cael ei reoli gan y Cyngor Cefn Gwlad, Butterfly Conservation a'r Awdurdod Lleol ac mae prosiectau amrywiol ar waith er budd y Fritheg Berlog, sy'n gwneud yn well na'r duedd ar draws y DU.

Mae'r gwaith o ddatblygu Glastir yn dal i fynd rhagddo ac mae adnoddau staff sylweddol wedi cael eu buddsoddi yn y gwaith hwn. Mae Butterfly Conservation wedi nodi 19 o löynnod byw a gwyfynod tir ffermio a allai elwa o Glastir – 4 o'r elfen wedi'i thargedu.

Er 2005 bu Butterfly Conservation yn gweithio gyda thirfeddianwyr preifat ar Brosiect Britheg y Gors de'r Rhondda yn Nhonyrefail yng nghwm de'r Rhondda. Cynhaliwyd

ymarferiad cwmpasu cyn cyflwyno cais o dan y drefn treth tirlenwi a ddangosai nad oedd y rhan fwyaf o'r tir yn cael ei ffermio. Roedd hyn yn tynnu sylw at y ffaith fod llawer o dir na fydd Glastir yn cyffwrdd ag ef a dangosai fod angen amryw o ffyrdd o gysylltu â thirfeddianwyr.

Y problemau allweddol sydd hefyd yn ein harwain at atebion h.y. edrych ar gyrsiau dŵr, y ddibyniaeth ar ddiddordeb tirfeddianwyr, targedu addysg at ysgolion ac ati. Yn ychwanegol at nifer o ddigwyddiadau hyfforddi a chynadleddau llwyddiannus a gynhaliwyd ros y blynyddoedd diwethaf, bu nifer o brosiectau llwyddiannus ar waith hefyd, yn cynnwys y Prosiect Cyfrif Gwyfynod a fu'n rhedeg rhwng Ionawr 2008 a 2011, a greodd lawer iawn o gyhoeddusrwydd. Yn 2011 caiff y Cyfrif Glöynnod Byw Mawr ei gynnal rhwng 16 a 31 Gorffennaf, gyda'r targed o ddenu 100,000 o unigolion i gymryd rhan. Gellir cymryd rhan ar-lein a bydd cofnodion yn cael eu derbyn rhwng mis Gorffennaf a mis Awst.

**CAM GWEITHREDU 11.** PAWB i nodi dyddiadau'r Cyfrif Glöynnod Byw Mawr 16eg -31ain Gorffennaf http://www.bigbutterflycount.org/ a chymryd rhan.

Mae Butterfly Conservation wrthi ar hyn o bryd yn cynnal nifer o brosiectau gwirfoddoli llwyddiannus, fel:

- Y Gliradain Gymreig yn Eryri a Sir Faesyfed.
- Y Fritheg Frown ym Mro Morgannwg.
- Y Dolennwr Llwydfelyn yn Sir Fynwy
- Britheg y Gors ar Benrhyn Llŷn
- Gwyfyn Gwent ym Mlaenau Gwent a Sir Fynwy.
- Y Gwibiwr Brith, y Fritheg Berlog Fach a'r gwyfyn Coediwr – Cymru gyfan
- Y Brithribin Brown yng Ngheredigion a Sir Benfro.

Diolchodd Diana i Russel am ei adolygiad buddiol o dargedau'r gorffennol a chafwyd trafodaeth wedyn yn ymwneud yn arbennig â gweithredu a fyddai o fudd i löynnod byw yng Nghymru. Ymysg y materion allweddol a nodwyd roedd yr angen i agor mynediad i dir Awdurdodau Lleol a LlC a chefnogaeth i brosiectau o dan arweiniad gwirfoddolwyr. Cytunwyd y dylai fod ffocws ar brosiectau sydd â lefel uchel o gyfraniad gan wirfoddolwyr, a byddai darparu symiau bach o arian i gefnogi'r prosiectau hyn yn hynod o lesol.

**CAM GWEITHREDU 12.** Russel a Sean i drafod cyllido prosiectau gwirfoddolwyr a bwrw ymlaen yn unol â hynny.

**CAM GWEITHREDU 13.** Rob Griffiths i roi Russel mewn cysylltiad ag asiantau tir LlC i drafod mwy o fynediad i dir Llywodraeth Cymru.

**CAM GWEITHREDU 14.** Diana i godi mater mynediad i grwpiau cadwraeth i dir i'r diben o fonitro a chofnodi pan fydd yn cwrdd â CLlLC.

Diolchodd Roy Tapping i Butterfly Conservation am y ffordd y mae wedi gweithio gyda'r Canolfannau Cofnodi Lleol yng Nghymru, sydd wedi arwain at y symiau enfawr o

ddata am löynnod byw a gwyfynod sy'n cael ei ddal gan y canolfannau erbyn hyn. Nododd Michele fod Butterfly Conservation wedi gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Coedwigaeth ac y cynhyrchwyd adroddiad yn manylu ar ymdrechion gwirfoddolwyr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r adroddiad hwn wedi cyrraedd uwch reolwyr yn y Comisiwn Coedwigaeth ac wedi arwain at gynhyrchu llawlyfr rheoli coetiroedd er budd glöynnod byw.

Cyhoeddodd Michele y bydd cynllun newydd y Comisiwn Coedwigaeth, 'Coetiroedd a Chi', yn cael ei lansio ar y 13eg Gorffennaf 2011 gyda'r nod o agor y ffordd i fwy o bobl nag erioed o'r blaen ddefnyddio ein hadnodd coetiroedd. Mae croeso i aelodau'r grŵp ddefnyddio a chopïo'r deunydd ar gyfer eu sefydliadau eu hunain os yw hynny'n briodol.

**CAM GWEITHREDU 15.** Michele i anfon dolen cynllun 'Coetiroedd a Chi' Comisiwn Coedwigaeth Cymru at Dîm Cymorth PBC i'w chylchredeg i PBC i annog eraill i fabwysiadu'r defnyddiau.

**Papur 02: Y Diweddaraf am Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol: Diana Reynolds**

Cyflwynodd Diana'r papur a chyhoeddodd fod Cam 1 y Fframwaith wedi cael ei gwblhau, a bod y gwaith wedi'i ddiffinio'n gliriach bellach ar ôl 18 mis cyntaf y rhaglen. Y nod trosfwaol yw 'rhoi bioamrywiaeth wrth galon popeth a wnawn'. Yn ystod cam 1 y rhaglen mae rhywfaint o waith adfer cynefinoedd wedi digwydd ar lawr gwlad, gyda Cadw bellach yn cytuno i adfer 40+ o safleoedd glaswelltir a 38 o gyrff cyhoeddus wedi ymrwymo i'r Cynllun Plannu er budd Peillyddion. Mae'r cynllun Plannu er budd Peillyddion ar gael i bawb a dylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â Clive Faulkner am ragor o wybodaeth.

**CAM GWEITHREDU 16.** PAWB i ystyried a allant weithredu'r cynllun Plannu er budd Peillyddion a chysylltu â Clive Falkner Clive.Faulkner@Wales.GSI.Gov.UK os oes ganddynt ddiddordeb.

Cyfarfu Bwrdd Rhaglen Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ar y 04ydd Gorffennaf 2011 a chytunwyd ar amserlen i Gam 2 Cymru Fyw. Bydd rhagor o bapurau'n dod ar gael dros y misoedd i ddod drwy borth y Fframwaith ar wefan LlC http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/nef/?skip=1&lang=cy. Bydd y datblygiadau i'r dyfodol yn cynnwys Papur Gwyrdd: mecanwaith allweddol er mwyn cyflawni, a fydd ar gael yn haf 2011, sy'n ceisio datblygu newid sylweddol mewn ymddygiad er mwyn rhoi Datblygu Cynaliadwy ar waith – sut mae gwneud pethau'n well a chyda llai o fiwrocratiaeth. Bydd adroddiad ar gael hefyd o'r ffrwd waith rheoleiddio a rheoli, sydd i fod i ymddangos ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2011. Disgwylir i waith peilot ddechrau yng ngwanwyn 2012 i archwilio sut mae modd rhoi'r Fframwaith ar waith ar lefel ranbarthol a lleol.

Mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo'r grŵp cyfeirio allanol lefel uchel, a bydd ei gyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yn fuan. Bydd cyfathrebu'n fewnol am y gwaith (o fewn LlC) yn digwydd drwy'r rhwydwaith eiriolwyr datblygu cynaliadwy a thrwy

gyfarfodydd rheolaidd gyda Clive Bates, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Dyfodol Cynaliadwy.

Cyhoeddodd Diana fod LlC wedi datblygu pecyn penderfynu i'w ddefnyddio gan bawb, sy'n cynnwys Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth fel dangosydd Datblygu Cynaliadwy. Mae'r pecyn hwn wedi cael ei gymeradwyo fel arf craidd i Borth Polisi LlC a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio os bydd angen ar ddiwedd Cam 2 Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol (24 mis yn fras). Mae LlC bellach yn chwilio am sefydliadau i dreialu'r pecyn ac adrodd yn ôl ar ei effeithiolrwydd.

> **CAM GWEITHREDU 17.** PAWB sydd â diddordeb mewn treialu'r pecyn penderfynu i gysylltu â Diana.Reynolds@Wales.GSI.Gov.UK

Bu'r gweithgarwch cyfathrebu ynglŷn â Chymru Fyw yn araf. Bydd penodiad newydd i dîm Cyfathrebu LlC (Hayley James) yn mynd i'r afael â hyn. Sean i roi gwaith i Hayley yn gysylltiedig â chamau gweithredu Cyfathrebu yn ymwneud â'r Fframwaith a nodwyd yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio PBC a chyfarfodydd y grŵp gorchwyl a gorffen Busnes a Bioamrywiaeth. Jeanie Gray (Cadwch Gymru'n Daclus) fydd cynrychiolydd Amgylchedd Cymru ar grŵp cyfathrebu craidd Cymru Fyw.

> **CAM GWEITHREDU 18.** Sean McHugh i roi'r holl gamau gweithredu perthnasol yn ymwneud â chyfathrebu i Hayley.

Holodd Julia Korn pwy fyddai'r gynulleidfa darged i'r Papur Gwyrdd ar newid ymddygiad. Dywedodd Diana mai'r gynulleidfa darged fydd holl adrannau LlC gan ei fod yn effeithio ar holl weithgareddau LlC.

Holodd Roy sut yr oedd y newid i Gabinet LlC a'r Gweinidogion newydd yn debygol o effeithio ar ddatblygiad Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Rhoddodd Diana sicrwydd i'r aelodau fod ymrwymiad parhaus ym Maniffesto Llafur Cymru i ddelio â chadwraeth ar raddfa tirwedd a bod y Gweinidogion yn cefnogi Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

Holodd David Jenkins sut oedd Bioamrywiaeth yn cael ei integreiddio i'r agenda datblygu cynaliadwy. Dywedodd Diana fod caniatáu i wahanol elfennau datblygu cynaliadwy gydblethu yn rhan arwyddocaol o ddatblygu'r Fframwaith. Bydd y cynnig o help gan yr Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol i helpu i bontio'r bwlch rhwng Grwpiau Ecosystemau a LlC o gymorth. Y nod yn y pen draw yw na fydd modd hawlio fod y gweithgareddau yr ymgymerir â nhw yn gynaliadwy oni bai eu bod yn ymgorffori canlyniadau bioamrywiaeth positif.

Cyfeiriodd Trevor yn ôl at y rhaglen Plannu er budd Peillyddion ac awgrymodd mai rheoli dolydd yn briodol fyddai'r ffordd iawn ymlaen yn hytrach na phlannu fflora anfrodorol i ddenu pryfed. Dywedodd Diana fod llawer iawn o waith wedi cael ei wneud ar y rhaglen peillyddion ac nad oedd yn ymwybodol fod rhywogaethau o blanhigion anfrodorol yn cael eu defnyddio.

**CAM GWEITHREDU 19.** Trevor i drafod manylion Rhaglen Peillyddion LlC gyda Clive Faulkner a cheisio eglurhad ynglŷn â tharddiad y rhywogaethau planhigion.

Cydnabuwyd fod gwaith da'n dod allan o broses Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ond nodwyd nad oes gan lawer o'r cyrff anllywodraethol llai y capasiti i gyfrannu na chael y wybodaeth ddiweddaraf o hyd am y datblygiadau, gan eu bod yn digwydd mor gyflym. Nododd Diana fod cynrychiolydd o Cyswllt Amgylchedd Cymru ar bob un o ffrydiau gwaith y Fframwaith ac y dylai'r negeseuon hyn gael eu lledaenu drwy'r cyswllt hwnnw. Dylai pob ffrwd waith hefyd fod yn cynhyrchu tair neges allweddol a fydd yn cael eu cyfleu drwy wefan Cyswllt Amgylchedd Cymru.

**CAM GWEITHREDU 20.** Cysylltiadau Cyswllt Amgylchedd Cymru ar grŵp craidd Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol i raeadru 3 neges allweddol sy'n deillio o gyfarfodydd i rwydwaith ehangach Cyswllt Amgylchedd Cymru.

Holodd Stephen Bladwell o oedd amserlenni bras yn hysbys o ran datblygu a gweithredu'r Fframwaith, ac a oedd tynnu pethau ymlaen yn broblem. Atebodd Diana gan ddweud fod pethau wedi digwydd yn weddol gyflym hyd yma ac y dylai cyfeiriadau ar y Porth Polisi fod yn eu lle o fis Medi, er y gallai gymryd yn hirach i weld gwahaniaeth ar lawr gwlad. Y disgwyl yw y caiff Cam 2 ei gwblhau yn 2014, gydag amcangyfrif o 15-30 mlynedd i roi'r rhaglen gyfan ar waith.

Holodd Nick Birula a oedd tîm y Fframwaith wedi nodi adrannau blaenoriaeth i fynd i'r afael â nhw yn LlC. Crybwyllodd Diana fod LlC wedi blaenoriaethu Coedwigaeth, Ffermio a Physgodfeydd ond bydd gwaith yn parhau gyda'r adrannau i gyd a bydd yn cael ei arwain drwy Clive Bates. Croesawai Diana'r awgrymiadau ynglŷn â pha adrannau ddylai gael eu targedu, neu ble y teimlai'r grŵp y gellid creu'r argraff fwyaf. Nododd y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yr wythnos hon gyda'r Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd a ddylai arwain at gyfarfodydd ychwanegol gyda'r Cydffederasiwn Busnes a Diwydiant (CBI).

**CAM GWEITHREDU 21.** PAWB i anfon awgrymiadau at Diana Reynolds ynglŷn â blaenoriaethu adrannau LlC i feithrin eu hymwneud â Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

Nododd Roy ei fod yn cael argraff gref mai gweithredu o'r brig i lawr sy'n digwydd, er ei fod yn cydnabod y câi sylw ei roi mwy na thebyg i weithredu o'r gwaelod i fyny drwy'r ffrwd waith gyfathrebu, gan adeiladu ar lwyddiannau lleol h.y. lefel Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Chanolfannau Cofnodi Lleol. Bydd gweithredu o'r brig i lawr yn fwy credadwy unwaith y bydd negeseuon yn dod o'r gwaelod i fyny. Ymatebodd Diana y gallai grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu Cymru Fyw ymdrin ag iaith ac ymgysylltu ac y byddai hynny'n adeiladu ar rôl gyfredol y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Y syniad yw creu 'mwy sy'n gweithio' ac adeiladu ar hynny.

Dywedodd Sinead wrth y grŵp fod gan Gyngor Dinas Casnewydd Swyddog Prosiect Bioamrywiaeth mewn Ysgolion sy'n cael ei gyllido 50% gan y Cyngor Cefn Gwlad a

50% drwy gytundeb lefel gwasanaeth £300 gydag ysgolion cynradd yng Nghasnewydd. Mae'r rôl yn cefnogi adnoddau dysgu a gweithgareddau rheoli tiroedd ymysg pethau eraill a bu'n llwyddiannus iawn. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cynhyrchu papur ar hyn a allai fod o ddiddordeb i Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn gweithredu mewn ffordd debyg.

**CAM GWEITHREDU 22.** Sinead Lynch i anfon y papur am Swyddog Prosiect Bioamrywiaeth mewn Ysgolion Casnewydd at Dîm Cymorth PBC i'w gylchredeg.

Dywedodd Diana y bydd canlyniadau archwiliad bioamrywiaeth adrannol gan LlC yn mynd i Gynhadledd PBC ym mis Medi ar ffurf posteri rhyngweithiol, a byddai modd felly i'r cynadleddwyr rhoi adborth arnynt.

Cytunodd y grŵp ei fod yn hapus i'r archwiliad o adrannau LlC gael ei gyflwyno ar ffurf posteri ond cytunwyd fod angen sefydlu rheolau o ran cyflwyno sylwadau.

Dywedodd Diana fod papur ar gael ar wefan LlC http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/110331nefecosystemservicesen.pdf yn tynnu sylw at brisio gwasanaethau ecosystemau, ar sail yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol. Nododd Nick Birula fod angen dirfawr i wasanaethau ecosystemau gael eu hymgorffori mewn penderfyniadau.

Gofynnodd Julia a fydd cam 2 y gwaith ar Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn dylanwadu ar yr adolygiad o Gyrff Amgylcheddol, sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Ymatebodd Diana fod cam 1 rhaglen Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol wedi dylanwadu ar y gwaith adolygu corff sengl a bod dangosyddion monitro perfformiad sy'n canolbwyntio ar ecosystemau yn cael eu datblygu yng ngham 2.

**CAM GWEITHREDU 23.** Diana i rannu'r tabl gyda Julia a chyfleu fod Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn faes gwaith allweddol i'r asiantaethau.

Dywedodd David y dylai fod gallu i edrych ar yr agweddau negyddol – h.y. yr arian sy'n mynd i unrhyw sector neilltuol yn arwain at effeithiau negyddol fel gorbori ac ati. Ar hyn o bryd mae'r ffocws ar yr elfennau positif a gofynnodd a oes modd ystyried a yw'n bosibl creu gwelliannau drwy archwilio opsiynau gwario i brosiectau neilltuol a chostio cynlluniau amgen sy'n gweithredu ar sail ecosystemau, megis y gwaith ar bysgodfeydd yn UDA. Cadarnhaodd Diana ei bod yn ymwybodol o brosiect dalgylch Catskill yn Efrog Newydd a bod hyn yn cael ei fwydo i'r gwaith o ddatblygu Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

Gofynnodd Stephen a fydd y ffrwd waith GIS yn gweithredu'n wahanol i'r lleill ac a oes terfynau amser wedi cael eu rhoi iddi. Cadarnhawyd fod terfynau amser o ran cynhyrchu cyfres o fapiau wedi cael eu rhoi i'r ffrwd waith GIS erbyn hyn, yn cynnwys gwaith edrych yn ôl i nodi ym mha gyflwr yr oedd ein hadnodd bioamrywiaeth 50 mlynedd yn ôl, ym mha gyflwr y mae yn awr ac ym mha gyflwr y byddai yn awr pe bai gweithredu ar sail Fframwaith Amgylchedd Naturiol wedi digwydd 50 mlynedd yn ôl. Os bydd y gwaith hwn yn llwyddiannus caiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Papur Gwyrdd yn

ddiweddarach yr haf hwn. Gofynnodd David a oes cyswllt rhwng y gwaith Polyscape a ffrwd waith GIS.

**CAM GWEITHREDU 24.** Diana i gadarnhau gyda Colin Chapman a yw Polyscape yn cael ei ddefnyddio gan ffrwd waith GIS Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

Cytunodd y grŵp a chadarnhaodd y dylai staff o'r Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol weithredu fel cynrychiolwyr ar y Grwpiau Ecosystemau ac y dylai Sean McHugh a Jeanie Gray wasanaethu ar grŵp Cyfathrebu craidd Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

**CAM GWEITHREDU 25.** Diana i gysylltu â thîm Cyfathrebu Cymru Fyw ynglŷn ag iaith a negeseua.

Ychwanegiadau i'r papur:
Cyhoeddodd Diana fod adran gynllunio LlC yn datblygu dangosydd datblygu cynaliadwy i gynllunio a fydd ar gael i gynnig sylwadau arno dros y misoedd nesaf – bydd yn cynnwys dangosydd bioamrywiaeth.

Rhaglen Adnewyddu'r Economi – ar hyn o bryd mae'n mapio'r sector ac yn nodi'r gwasanaethau craidd, yn cynnwys ynni, yr amgylchedd, gwasanaethau ecosystemau a'r sector busnes. Câi cynigion o gymorth gan PBC eu croesawu i nodi gweithredu llesol i natur a'r economi sy'n cael ei dargedu'n ofodol.

**CAM GWEITHREDU 26.** PAWB i anfon manylion cyswllt unigolion a allai ymwneud â Rhaglen Adnewyddu'r Economi a'i chynorthwyo at Dîm Cymorth PBC.

**Papur i'w Nodi A: Troseddau yn Erbyn Bywyd Gwyllt – Y Diweddaraf: y Rhingyll Ian Guildford**

Cyflwynodd y Rhingyll Guildford y papur a dywedodd wrth y grŵp fod y Rhingyll Matthew Howells o Heddlu Dyfed Powys wedi ymgymryd â rôl Swyddog Troseddau Bywyd Gwyllt ac Amgylcheddol llawn amser gyda Heddlu Dyfed Powys yn ddiweddar. Bydd yn gweithio o bencadlys yr Heddlu yng Nghaerfyrddin a bydd yn gyfrifol am droseddau bywyd gwyllt ac amgylcheddol yn Nyfed Powys. Erbyn hyn mae tri Swyddog Troseddau Bywyd Gwyllt llawn amser yn gweithio gyda'r Cyngor Cefn Gwlad ar draws Cymru. Mae'r Grŵp Gorfodaeth Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt wedi cwrdd 3 gwaith a chaiff ei gadeirio gan Ian Arundale, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a fydd yn hwyluso cysylltiadau ag uwch swyddogion yn yr heddlu.

Dywedodd y Rhingyll Guilford wrth y grŵp y bydd cynhadledd troseddau bywyd gwyllt undydd i Gymru yn cael ei chynnal ym mhencadlys yr heddlu yng Nghaerfyrddin yn ddiweddarach eleni. Bydd y gwahoddiadau'n mynd allan yn yr wythnosau nesaf.

**CAM GWEITHREDU 27.** Ian i drafod diwygio'r rhestr o droseddau yn erbyn bywyd gwyllt gyda Chris Tucker fel bod ffocws ar ad42 ynddi.

**CAM GWEITHREDU 28.** Ian i gysylltu â Thîm Troseddau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ynglŷn â chyd riportio troseddau yn erbyn bywyd gwyllt.

Nododd Julia y bydd gwaith yr uned troseddau bywyd gwyllt yn bwydo i Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru ar ei newydd wedd.

**Papur i'w Nodi B: Cynllun Gwobrwyo Swyddogion Cynllunio Castell-nedd Port Talbot: Rebecca Sharp.**

Cyflwynodd Diana'r papur gyda'r nod o annog yr ymarfer ograu ymysg Awdurdodau Lleol eraill. Nododd Nick Birula fod ganddo ddiddordeb yn sut y cafodd y broses hon ei datblygu a'i mesur a gofynnodd a ellid ymgorffori'r fethodoleg drwy'r dangosydd datblygu cynaliadwy.

**CAM GWEITHREDU 29.** Diana a Rob i drafod gyda chydweithwyr ac annog defnyddio astudiaeth achos Castell-nedd Port Talbot wrth ddatblygu dangosydd datblygu cynaliadwy.

Nododd Roy Tapping fod ymdrechion sylweddol yn digwydd yng Nghymru i graffu ar geisiadau cynllunio ond fod y canlyniadau yn aml yn anhysbys ac na wyddom faint o bwysau sy'n cael eu rhoi i'r dystiolaeth a gyflwynir (e.e. rhywogaethau ad42). Mae Canolfannau Cofnodi Lleol yn cynnig sylwadau ar amryw o geisiadau cynllunio fel y gwna sefydliadau amgylcheddol eraill a chyrff statudol ond mae'n bwysig cydnabod mai adrannau cynllunio'r awdurdodau lleol sy'n rheoli'r broses drwyddi draw. Byddai dangosydd colled/lles cynllunio yn ddefnyddiol iawn ac yn cwmpasu rhywogaethau ad42 a chynefinoedd yn hytrach na canolbwyntio ar ddim ond rhywogaethau a chynefinoedd sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop.

**CAM GWEITHREDU 30.** Roy i ystyried sut y gall y Canolfannau Cofnodi Lleol helpu i fonitro colled/lles cynllunio o ran cynefinoedd mewn awdurdodau lleol.

Nododd Melanie ei bod yn ofyniad o dan y Cynllun Datblygu Lleol cynnal adolygiad blynyddol, sy'n mynd i LlC wedyn, a gofynnodd a ellid rhannu'r adroddiad hwn ar ôl iddo gael ei gynhyrchu.

**Papur i'w Nodi C: Natur Cymru: Huw Jenkins**

Cyflwynodd Huw y papur a dywedodd wrth y grŵp mai 2011 yw deng mlwyddiant Natur Cymru. Mae Natur Cymru'n croesawu awgrymiadau am erthyglau neu storïau oddi wrth PBC, a gall roi sylw i rai ohonynt am ddim.

Mae LlC yn rhan gyllido Natur Cymru ac yn y blynyddoedd diwethaf mae'r gwaith wedi cynnwys cynhyrchu ffilmiau YouTube yn tynnu sylw at wasanaethau ecosystemau yn cynnwys chwistrellu slyri ar fferm yn Sir Ddinbych mewn cydweithrediad ag Asiantaeth

yr Amgylchedd, a gwaith ar Ganolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion. Mae erthyglau blaenorol ar gael drwy wefan Natur Cymru http://www.naturcymru.org.uk

Dywedodd Huw wrth y grŵp fod yr aelodaeth wedi tyfu'n gyson a bod gan y cyhoeddiad 100 o danysgrifwyr ar hyn o bryd o'i gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, mae angen cynnal y momentwm. Felly, mae cyfarfod yn cael ei gynnal ar y 13eg Gorffennaf 2011 lle trafodir syniadau er mwyn gwella.

Ymysg yr awgrymiadau am erthyglau i'r dyfodol roedd tystiolaeth o newid mewn coetiroedd o ganlyniad i ffensio, erthyglau morol ac erthyglau'n tynnu sylw at waith y Grwpiau Ecosystemau. Gellid gofyn hefyd i rwydweithiau bioamrywiaeth yr awdurdodau lleol am erthyglau a chyfleoedd ffilmio posibl.

**CAM GWEITHREDU 31.** PAWB i anfon awgrymiadau am erthyglau neu storïau at Huw Jenkins neu Dîm Natur Cymru.

**CAM GWEITHREDU 32.** Tîm Cymorth PBC i gylchredeg y cyfle i gyfrannu at Natur Cymru i'r Awdurdodau Lleol.

**Papur i'w Nodi D: *Dikerogammarus villosus:* Nick Birula**

Cyflwynodd Nick y papur, gan ddweud wrth y grŵp fod *dikerogammarus villosus* wedi cael ei gadarnhau erbyn hyn ar ddau safle yng Nghymru er mis Tachwedd 2010: Bae Caerdydd ac Eglwys Nynudd ym Mhort Talbot. Mae Amgylchedd Cymru wedi datblygu mecanweithiau monitro cadarn a hyd yma nid oes rhagor o safleoedd wedi cael eu cadarnhau, er gwaethaf y ffaith fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi samplu 49 o safleoedd ychwanegol yn 2011.

Fodd bynnag, mae'r ddealltwriaeth wyddonol o effeithiau posibl y rhywogaeth yn gyfyngedig, ac mae grŵp gorchwyl a gorffen i Gymru gyfan wedi cael ei sefydlu i ystyried yr effeithiau tebygol yng nghyd-destun y DU. Mae perchenogion a rheolwyr safle yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau fod y mesurau rheoli priodol ar waith a bydd angen adolygu'r mesurau rheoli yn barhaus.

Mae amryw o asiantaethau yn gweithio i ddod â gwybodaeth ddiffiniol a chyfredol ynghyd. Mae'r ymgyrch 'Archwiliwch, Glanhewch, Sychwch' dan arweiniad Defra hefyd yn cael ei hyrwyddo ledled y DU https://secure.fera.defra.gov.uk/nonnativespecies/index.cfm?pageid=337 gyda neges gyffredinol am fioddiogelwch dyfrol.

Gofynnodd Mark Robinson a oedd effeithiau tebygol *dikerogammarus villosus* yn glir. Dywedodd Nick y rhagwelir effaith lefel uchel ond fod angen cysoni hyn â ffactorau eraill fel math o gynefin, hydroleg ac ati. Mae Prifysgol Rhydychen wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymchwil ynglŷn â hyn a dylai'r canlyniadau ymddangos ymhen chwe mis. Dywedodd Mark fod gan Ddyfrffyrdd Prydain bryderon ynglŷn â'r rhwydwaith camlesi a dalgylchoedd; maent wedi bod mewn cysylltiad â Defra i drafod cronfeydd dŵr.

**CAM GWEITHREDU 33.** Nick Birula i ddarparu manylion cyswllt perthnasol i Mark Robinson.

**CAM GWEITHREDU 34.** PAWB i edrych ar yr ymgyrch 'Archwiliwch, Glanhewch, Sychwch' a'r wybodaeth ar wefan GBNNS.

**Papur i'w Nodi E: PBC – Cynllunio a Chyllidebu: Sean McHugh**

Cyflwynodd Diana'r papur a gofynnodd a oedd y grŵp yn hapus i gadarnhau'r gyllideb arfaethedig. Cytunodd y grŵp ar y gyllideb.

Gofynnwyd i'r grŵp gymeradwyo'r dyddiadau ar gyfer Wythnos Bioamrywiaeth Cymru 2012 – a raglennwyd ar gyfer y 9fed i'r 17eg Mehefin 2012, a dyddiad Cynhadledd PBC 2012 a raglennwyd ar gyfer y 12fed a'r 13eg Medi 2012. Cadarnhaodd y grŵp y naill a'r llall.

**CAM GWEITHREDU 35.** PAWB i nodi dyddiadau Wythnos Bioamrywiaeth Cymru a Chynhadledd PBC yn 2012.

**CAM GWEITHREDU 36.** PAWB i lenwi'r ffurflen archebu ar gyfer Cynhadledd PBC 2011 a'i dychwelyd at HALLIWELL@tsd.ac.uk mor fuan â phosibl.

Awgrymwyd y gellid gwahodd aelodau o'r Cyngor Prydeinig Gwyddelig i gynhadledd PBC 2011 ar y gyfradd heb gymhorthdal a chymeradwyodd y grŵp hyn.

**CAM GWEITHREDU 37.** Sean i anfon ffurflen archebu ddiwygiedig at Steve Jackson ar gyfer y gwahoddiad i'r Cyngor Prydeinig Gwyddelig.

Holodd Robert Griffiths ynglŷn â'r drefn i werthuso Wythnos Bioamrywiaeth Cymru. Atebodd Sean y byddai gwerthusiad yn cael ei gynnal o ddigwyddiad eleni ac y câi adroddiad ei lunio.

**Papur i'w Nodi F: Dyfodol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth – y Diweddaraf: Julia Korn.**

Cyflwynodd Julia'r papur a dywedodd wrth y grŵp fod y Grŵp Dyfodol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth wedi cael ei ailsefydlu'n ddiweddar i edrych ar y cyfleoedd a'r sialensiau sy'n codi yn sgil datblygu Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a'r adolygiad sydd ar y gweill o gyrff amgylcheddol.

Prif dasg y grŵp fydd adolygu Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru a sicrhau ei fod yn cael ei integreiddio i fecanweithiau cyflawni Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, a hynny'n cynnwys gwaith unrhyw gorff amgylcheddol newydd. Mae Cylch Gorchwyl y grŵp, ynghyd â chofnodion y cyfarfod cyntaf, ar gael drwy wefan PBC. Bydd gwaith y

grŵp yn canolbwyntio i ddechrau ar adolygu'r strwythurau a'r prosesau (adran 7 Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru) a bydd yn cynnal gweithdy yng Nghynhadledd PBC ym mis Medi.

Caiff is-grŵp Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ei sefydlu hefyd i ganfod barn y cynlluniau ar draws Cymru a bydd y gwaith yn cael ei symud ymlaen gan Dîm Cymorth PBC.

Nododd Diana fod Bwrdd Rhaglen Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol wedi cymeradwyo defnyddio partneriaethau lleol fel dull craidd o ymdrin â cholli bioamrywiaeth a chadarnhaodd y bydd y Grŵp Dyfodol Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth yn adrodd i Grŵp Llywio PBC a Bwrdd Rhaglen Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol unwaith y bydd wedi cwblhau ei waith.

**CAM GWEITHREDU 38.** PAWB i anfon unrhyw awgrymiadau ynglŷn â rhwystrau rhag cyflawni llwyddiannus ac atebion at Julia Korn j.korn@ccw.gov.uk.

**Papur i'w Nodi G: System Adrodd ar Weithredu ym maes Bioamrywiaeth (BARS) – y Diweddaraf: Alys Edwards**

Cyflwynodd Alys Edwards y papur a dywedodd wrth y grŵp y bydd y datblygiadau BARS sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn ychwanegu gallu newydd i'r system, gyda'r nod o wneud y system newydd yn fwy hygyrch a thryloyw. Mae'r ailddatblygu hwn ar BARS yn adlewyrchu newid sylfaenol oddi wrth y ffocws cyfredol ar gofnodi cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth. Prif nod BARS wrth fynd ymlaen fydd cofnodi a riportio gwybodaeth am weithredu sy'n digwydd mewn gwirionedd er lles bioamrywiaeth. Bydd sesiwn BARS a stondin rhyngweithiol ar gael yng Nghynhadledd PBC ym mis Medi a chaiff rhaglen hyfforddi ei chyflwyno'n hwyrach yn 2011/dechrau 2012.

Nodwyd fod angen ymdrin â sut y bydd BARS yn cael ei defnyddio fel rhan o Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a chytunwyd i ddod â phapur trafod i gyfarfod o'r Grŵp Llywio yn y dyfodol unwaith y bydd y datblygu ar waith.

**CAM GWEITHREDU 39.** Dylai PAWB sydd am gael rhagor o wybodaeth am ddatblygu BARS neu argaeledd data gysylltu ag Alys Edwards (a.edwards@welshwildlife.org) i drafod.

**CAM GWEITHREDU 40.** Alys i ddarparu papur trafod BARS i SG15 neu SG16 yn dibynnu ar hynt y gwaith datblygu.

**Adborth gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru, Lynda Warren**

Estynnodd Diana groeso i Lynda i'w chyfarfod cyntaf a diolchodd iddi am gytuno i fod yn gynrychiolydd newydd y Bartneriaeth Arfordir a Môr ar Grŵp Llywio PBC. Eglurodd Lynda rôl a chylch gwaith y Bartneriaeth, sy'n gweithio drwy gynrychiolwyr sefydliadau neu sectorau sydd â diddordeb mewn materion morol neu arfordirol. Y nod yw rhaeadru

gwybodaeth i'r rhai sydd â diddordeb. Mae'r Bartneriaeth Arfordir a Môr yn cwrdd 3 gwaith y flwyddyn gydag unrhyw waith yn cael ei symud ymlaen drwy is-grwpiau llai. Mae gwaith diweddaraf y bartneriaeth wedi canolbwyntio ar yr ymgynghoriad ynglŷn â Chynllunio Morol a'r cyfrifoldeb am y Grŵp Cynghori i Randdeiliaid a Dinasyddion, rhan o Brosiect Parth Cadwraeth Morol Cymru. Cynhelir cyfarfod nesaf y grŵp hwn ar yr 20fed Gorffennaf a bydd y Gweinidog yn bresennol.

Rhagwelir y gallai fformat Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru newid dros y misoedd nesaf i adlewyrchu'r newidiadau polisi yng Nghymru, yn cynnwys newid llywodraeth, Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Strategol Forol ac i sicrhau ffordd integredig o ymdrin â gwaith morol a daearol.

Gofynnodd Rob Griffiths faint o gysylltiad oedd rhwng y Bartneriaeth Arfordir a Môr ag adran Pysgodfeydd LlC. Er bod Pysgodfeydd LlC wedi bod yn cysylltu â'r Bartneriaeth yn flaenorol, dywedodd Lynda fod lefel y diddordeb wedi lleihau ers diddymu'r Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr. Mae gan Diana gyfarfod cyn bo hir gyda Phil Coates yn ei rôl newydd ym Mhysgodfeydd LlC a chytunodd i godi mater cysylltu â'r Bartneriaeth Arfordir a Môr.

> **CAM GWEITHREDU 41.** Diana i godi ymwneud Pysgodfeydd LlC â Phartneriaeth Arfordir a Môr Cymru fel mater i'w drafod pan fydd yn cwrdd â Phil Coates.

**Adborth gan y Pwyllgor Sefydlog**

Hysbysodd Diana'r grŵp fod cyfarfod Pwyllgor Sefydlog y DU wedi cael ei ohirio. Byddir yn cytuno ar ddyddiad newydd a rhoddir adborth yn SG15 ym mis Tachwedd 2011.

**Materion o'r Canolfannau Cofnodi Lleol, Roy Tapping**

**Plant Link Cymru (PLINC)**
Mae'r Canolfannau Cofnodi Lleol wedi cynnal dau gyfarfod llwyddiannus gyda PLINC, i edrych ar well strwythur i reoli data am blanhigion yng Nghymru. Canolbwyntiwyd ar atebion ymarferol a thechnegol yn ymwneud â materion llif data rhwng Cynlluniau a Chymdeithasau Cenedlaethol, y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, cofnodwyr unigol a Chanolfannau Cofnodi Lleol.

**Mater i'w ystyried:** Hoffai'r Canolfannau Cofnodi Lleol gyflwyno papur i PBC yn egluro rôl cofnodwyr gwirfoddol yn y broses llif data. Diben hyn yw nid dim ond amlygu'r ymdrech a wneir gan wirfoddolwyr ond dangos hefyd mor gymhleth yw'r llif data ar hyn o bryd a dangos cynlluniau cofnodi newydd e.e. iSpot.

> **CAM GWEITHREDU 42.** Y Canolfannau Cofnodi Lleol i baratoi papur ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd y Grŵp Llywio yn amlygu mor gymhleth yw'r llif data biolegol ac ymdrechion cofnodwyr gwirfoddol.

**Cronfa ddata Canolfannau Cofnodi Leol Cymru**
Mae Canolfannau Cofnodi Cymru wedi bod yn coladu data oddi wrth bob canolfan ers tro, i'w ddefnyddio gan bartneriaid cenedlaethol fel y Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Ar hyn o bryd caiff data ei goladu o bryd i'w gilydd yn unol â set o weithdrefnau llaw safonol. Mae Canolfannau Cofnodi Lleol Cymru wedi bwrw ymlaen â gwaith i integreiddio'u data mewn ffordd ddi-dor, drwy gronfa ddata wedi'i chysoni. Mae'r gwaith ar hyn wedi peidio'n ddiweddar oherwydd diffyg adnoddau mewnol.

**Mater i'w ystyried:** Mae'n ymddangos fod gofyn cynyddol am gronfa ddata wedi'i chysoni ar gyfer y Canolfannau Cofnodi Lleol, fel bod modd i ddata gael ei adrodd yn fwy effeithlon ar gyfer partneriaid a chofnodwyr. Byddai'r Canolfannau Cofnodi Lleol yn gofyn i PBC archwilio ffyrdd o ddarparu adnoddau ar gyfer y gwaith cysoni a chredant, drwy gefnogi'r gwaith hwn, y bydd modd creu set ddata rhywogaethau 'Perthnasol i Gymru', y gellid ei defnyddio ar sail leol, rhanbarthol neu genedlaethol.

**Cyllido a Chytundeb Llywodraeth Gyfan**
Yn ymateb Canolfannau Cofnodi Lleol Cymru i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, awgrymwyd y gallai cyd-drefnu cyllid rhwng prif bartneriaid cenedlaethol y canolfannau ddarparu mwy o fynediad, drwy Gytundeb Llywodraeth Gyfan, at ddata'r canolfannau ar draws LlC a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Er bod trafodaethau cychwynnol wedi cael eu cynnal rhwng LlC a Chyrff a Noddir ganddi, nid yw'r Canolfannau Cofnodi Lleol wedi cael gwybod canlyniad y trafodaethau hyn eto. Gobeithiwn y gellir cytuno ar ateb gan y bydd hynny gobeithio yn caniatáu mwy o fynediad at ddata i adrannau LlC, yn cynnwys data i'w ddefnyddio yn Glastir a Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Ar wahân i'r ansicrwydd ynglŷn â chyllid gan bartneriaid cenedlaethol, mae'r Canolfannau Cofnodi Lleol yn wynebu pwysau gan Awdurdodau Lleol i leihau neu rewi eu Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Felly, gan fod costau'r canolfannau'n cynyddu'n flynyddol, nid yw'r taliadau o dan Gytundebau Lefel Gwasanaeth yn cyfateb i'r codiadau hynny.

**Mater i'w ystyried:** Mae'r Canolfannau Cofnodi Lleol yn annog pwyso o blaid Cytundeb Llywodraeth Gyfan, gan gredu fod hynny'n cyd-fynd ag ysbryd Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Byddai hyn hefyd gobeithio yn agor mynediad at ddata i adrannau LlC, fel amaethyddiaeth, nad ydynt yn gallu defnyddio'r data ar hyn o bryd. Cred y Canolfannau Cofnodi y byddai mwy o sicrwydd o ran cyllido cenedlaethol yn help i roi pwysau ar Awdurdodau Lleol i gyllido'r Canolfannau Cofnodi Lleol yn fwy cyson.

> **CAM GWEITHREDU 43.** Helen Wilkinson i gysylltu ag Alison Smith (DE&T) a Mark Goddard (CCGC) i ddatrys rhai o'r materion yn ymwneud â llunio cytundeb Canolfannau Cofnodi Lleol Cymru gyfan.

**Ymgynghorwyr amgylcheddol yn cyrchu at ddata o'r Porth NBN**
Mae'r Canolfannau Cofnodi Lleol yn casglu corff cynyddol o dystiolaeth i ddangos fod ymgynghorwyr amgylcheddol yn defnyddio Porth NBN yn hytrach na gwasanaethau'r Canolfannau Cofnodi. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod y Porth yn datgan yn benodol na ddylai'r data gael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol. Mae'r Canolfannau Cynghori

Lleol yn darparu mynediad llawer mwy cynhwysfawr at ddata manwl na'r Porth ac maent felly'n cael eu pennu'n aml gan Awdurdodau Lleol (yn arbennig mewn "trafodaethau cyn ymgeisio", sy'n ofynnol o dan Tan 5).

**Mater i'w ystyried:** Lle mae hynny'n bosibl ac yn ofynnol, mae'r Canolfannau Cofnodi Lleol yn annog y dylai Ymgynghorwyr Amgylcheddol gael eu cyfeirio at wasanaethau'r Canolfannau Cofnodi Lleol.

> **CAM GWEITHREDU 44.** PAWB i gyfeirio ymgynghorwyr ecolegol at rwydwaith y Canolfannau Cofnodi Lleol gan nad yw gwybodaeth NBN yn ddigon manwl i fodloni gofynion arolygon.

> **CAM GWEITHREDU 45.** Tîm Cymorth PBC i gylchredeg sgript y Canolfannau Cynghori Lleol i'r awdurdodau lleol, yn cyfiawnhau cost a budd bod â Chytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r ganolfan gofnodi leol.

**Cyrsiau hyfforddiant tacsonomeg**

Hoffai'r Canolfannau Cofnodi Lleol ddiolch i PBC am y cymorth ariannol a gynigiwyd i gyd-drefnu a chynnal cyrsiau hyfforddiant tacsonomeg dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Drwy gydol y cyfnod hwn mae pob canolfan wedi cynnal cyfres o gyrsiau hyfforddi arbenigol wedi'u darparu gan wirfoddolwyr ac arbenigwyr cyflogedig. Mae'r hyfforddiant hwn wedi darparu cyfleoedd i gyfranogwyr gynyddu eu profiad mewn meysydd nad ydynt yn gyffredinol yn cael eu cwmpasu gan hyfforddiant arall. Bydd y canolfannau'n parhau i ddarparu cyfres o gyrsiau yn y flwyddyn ariannol hon, gyda'r gobaith y bydd PBC yn parhau i roi cefnogaeth ariannol.

**Camau Gweithredu a Chofnodion SG13**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Dywedodd Diana wrth y grŵp fod 47 o'r 59 o Gamau Gweithredu un ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill.

CAM GWEITHREDU 26: Pawb i drafod y Cylch Gorchwyl gyda rheolwyr llinell/Prif Swyddogion Gweithredol er mwyn cytuno i'w gynnwys mewn disgrifiadau swydd a/neu roi unrhyw adborth pellach ar y Cylch Gorchwyl i Diana Reynolds.

Nododd Julia fod grŵp Dyfodol PBC wedi cytuno i edrych ar y Cylch Gorchwyl i grwpiau lefel Cymru PBC.

> **CAM GWEITHREDU 46.** PAWB i barhau i drafod Cylch Gorchwyl diwygiedig gyda rheolwyr llinell.

> **CAM GWEITHREDU 47.** Steve Jackson i drafod rhyddhau amser staff gyda David Parker fel bod modd ymwneud mwy â grwpiau ecosystemau PBC.

CAM GWEITHREDU 23: Annog y defnydd o gyfleusterau telegynadledda.

**CAM GWEITHREDU 48.** Tîm Cymorth PBC i ymchwilio i gyfleusterau telegynadledda am ddim, yn cynnwys Skype, a chylchredeg y manylion.

CAM GWEITHREDU 46: Graham Oliver i ddosbarthu rhagor o fanylion am ddigwyddiad 'Cymru Anhysbys' pan fyddant ar gael.

Mae manylion Cynhadledd Cymru Anhysbys ar gael erbyn hyn drwy wefan Amgueddfa Genedlaethol Cymru
http://www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/digwyddiadau/?event_id=5098

**Unrhyw Fater Arall**

Codwyd mater cyllido PBC, a'r problemau o ran cario arian ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf. Cytunai Diana y dylai hyn fod yn bosibl a bydd yn codi'r mater gyda'i chydweithwyr yn LlC.

**CAM GWEITHREDU 49.** Diana i godi mater cyfyngiadau cyllido PBC gyda chydweithwyr yn LlC ac adrodd yn ôl i PBC a'r Cyngor Cefn Gwlad.

Cyhoeddodd Trevor fod y Botanical Society of the British Isles (BSBI) wedi cyflogi Swyddog Cymru. Bydd Polly Spencer-Vellacott yn gweithio o swyddfa'r Cyngor Cefn Gwlad yn yr Wyddgrug a bydd ei rôl yn cynnwys cefnogi cofnodwyr is-sirol a darparu cymorth technegol.

Ychwanegodd Stephen fod gan y British Trust for Ornithology (BTO) hefyd ddau aelod newydd o staff yng Nghymru, a fydd yn gweithio o Brifysgol Bangor.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

**SG15** 10$^{fed}$ Tachwedd 2011, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
**SG16** 21$^{ain}$ Chwefror 2012, De Cymru, lleoliad i'w gadarnhau

Diolchodd Diana i bawb am ddod i'r cyfarfod ac am eu gwaith caled rhwng cyfarfodydd y grŵp llywio a daeth â'r cyfarfod i ben.